



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trefniadau Terfynu Beichiogrwydd yng Nghymru

Gwneud y gymeradwyaeth dros dro yn barhaol, gan ganiatáu defnydd cartref o'r ddwy bilsen ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar hyd at 9 wythnos a 6 diwrnod yn y beichiogrwydd.

Dyddiad cyhoeddi: 01 Rhagfyr 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Unig ddiben yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a ddylid gwneud y gymeradwyaeth dros dro bresennol yn barhaol, gan ganiatáu i bob menyw gymwys yng Nghymru ddefnyddio'r ddwy bilsen ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar yn y cartref hyd at 9 wythnos a 6 diwrnod yn y beichiogrwydd. Nid yw'r cwmpas yn ymestyn i faterion eraill sy'n ymwneud ag erthyliadau, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol ehangach.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 22 Chwefror 2021. Gallwch ymateb ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post.

Ar-lein

Llenwch yr holiadur ar-lein ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru:

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i: WomensHealth@llyw.cymru

Post

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i: <https://llyw.cymru/trefniadau-terfynu-beichiogrwydd-yng-nghymru>

Y Gangen Iechyd Menywod a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Iechyd Menywod a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

e-bost: WomensHealth@llyw.cymru

ffôn: 03000 251534

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid gwneud y gymeradwyaeth dros dro bresennol yn un parhaol, gan ganiatáu i bob menyw gymwys yng Nghymru ddefnyddio'r ddwy bilsen, mifepristone a misoprostol, gartref ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar yn y Cartref (EMAH). Nid yw cwmpas yr ymgynghoriad hwn yn ymestyn i faterion eraill sy'n ymwneud ag erthyly, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol ehangach.

Cefndir

Yn ystod pandemig COVID-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth dros dro yng Nghymru, gan alluogi i fenywod a merched gymryd y ddwy bilsen ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar (LCA) hyd at 9 wythnos a 6 diwrnod yn y beichiogrwydd yn eu cartrefi eu hunain, yn dilyn ymgynghoriad ffôn neu e-ymgynghoriad gyda chlinigydd, heb fod angen mynd i ysbyty neu glinig yn gyntaf. Rhoddwyd y trefniant hwn ar waith yn ystod y pandemig i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 a sicrhau mynediad parhaus i wasanaethau erthyly. Ar hyn o bryd mae'n gyfyngedig o ran amser am ddwy flynedd, neu hyd nes y bydd y pandemig ar ben, pa un bynnag fydd gynharaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sensitifrwydd ynghylch erthyly, a'r safbwyntiau cryf ar bob ochr i'r ddadl. Dyna pam rydym yn cydnabod yr angen i ymgynghori'n llawn ar y mater hwn er mwyn rhoi cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol, darparwyr, menywod sydd wedi defnyddio gwasanaethau erthyly a'r cyhoedd wneud sylwadau a chyflwyno tystiolaeth drwy'r ymgynghoriad hwn.

Amcanion polisi'r ymgynghoriad hwn yw deall:

- effaith y gymeradwyaeth dros dro a phrofiadau pobl;
- manteision gwneud y gymeradwyaeth dros dro yn parhaol;
- risgiau gwneud y gymeradwyaeth dros dro yn parhaol;
- y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud y gymeradwyaeth dros dro yn parhaol.

Erthyliad Meddygol Cynnar

Diffinnir Erthyliad Meddygol Cynnar fel terfynu beichiogrwydd o fewn 10 wythnos gyntaf y beichiogrwydd gan ddefnyddio dulliau meddygol. Mae Erthyliad Meddygol Cynnar yn cynnwys gweinyddu dwy dabled wahanol: mifepristone a misoprostol.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyhoeddi ystadegau ar erthyly yn flynyddol ar gyfer Cymru a Lloegr. Ers 2009, bu cynnydd yng nghyfran yr erthyliadau a gyflawnwyd cyn cyrraedd 10 wythnos. Yng Nghymru a Lloegr yn 2019, cyflawnwyd 82% o erthyliadau cyn cyrraedd 10 wythnos, wedi cynyddu o 75% yn 2009. Mae cael mynediad at wasanaethau erthyliad meddygol cynnar, yn hytrach na chael erthyliad yn

ddiweddarach yn y beichiogrwydd yn helpu i leihau'r risg o gymhlethdodau, sy'n cynyddu yn ddiweddarach yn y beichiogrwydd.

Mynediad i Erthyliad Meddygol Cynnar cyn COVID-19

Yn 2018, defnyddiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bwerau yn Adran 1(3A) o Ddeddf Erthylu 1967 i gymeradwyo cartrefi Cymru fel dosbarth o le lle gellir cynnal ail gam y driniaeth (misoprostol) ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar hyd at 10 wythnos yn y beichiogrwydd ("cymeradwyaeth 2018").

O dan y gymeradwyaeth hon, daeth menywod a oedd yn gymwys i gael erthyliad i'r clinig i gymryd y bilsen gyntaf (mifepristone) ac yna cynigiwyd y dewis iddynt weinyddu'r misoprostol yn eu cartref eu hunain, neu ddychwelyd i'r clinig i gymryd y misoprostol. Rhoddwyd cyfarwyddiadau clir i'r menywod a ddewisodd weinyddu'r misoprostol gartref ynglŷn â'i ddefnydd a ble i geisio cymorth os oedd angen. Yng Nghymru a Lloegr yn 2019, gweinyddwyd ail gam y driniaeth gartref ar gyfer 36% o'r holl Erthyliadau Meddygol Cynnar a gynhaliwyd.

Mynediad at wasanaethau Erthyliad Meddygol Cynnar yn ystod pandemig COVID-19

Mae'r gymeradwyaeth dros dro a roddwyd ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19 yn galluogi i fenywod a merched gymryd y ddwy bilsen (mifepristone a misoprostol) ar gyfer Erthyliad Meddygol Cynnar hyd at 10 wythnos yn y beichiogrwydd yn eu cartrefi eu hunain, yn dilyn ymgynghoriad ffôn neu e-ymgynghoriad â chlinigydd, heb fod angen mynd i ysbyty neu glinig yn gyntaf. Mae'r gymeradwyaeth dros dro hon yn disodli cymeradwyaeth 2018 a ddisgrifiwyd uchod.

Mae terfynu beichiogrwydd yn parhau i fod yn wasanaeth hanfodol. Yr ydym wedi gwrandao ar grwpiau menywod a chlinigwyr ac wedi cyflwyno'r mesurau dros dro hyn sy'n galluogi i fenywod yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd gartref.

Diogelwch y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth wrth inni fynd i'r afael â phandemig COVID-19. Datblygwyd y protocol a ddefnyddiwyd i ddarparu gwasanaethau erthyliad meddygol cynnar drwy delegynhadledd yn ystod COVID-19 gan glinigwyr ac fe'i cefnogwyd gan ganllawiau a gyhoeddwyd gan NICE a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG). Rydym yn hyderus bod yr holl risgiau clinigol a diogelu yn cael eu hystyried a'u rheoli'n briodol gan gynnwys asesu cyfnod y beichiogrwydd.

Yn dilyn nifer fach o achosion yn Lloegr lle daethpwyd â beichiogrwydd i ben gartref ar ôl y terfyn o 9 wythnos 6 diwrnod, rydym wedi sicrhau bod y canllawiau a ddarperir i

glinigwyr sy'n ymgymryd ag Erthyliad Meddygol Cynnar yn y cartref yn nodi'n glir bod yn rhaid iddynt drefnu i'r fenyw fynychu clinig os oes unrhyw bryder ynghylch cywirdeb y cyfnod beichiogrwydd.

Croesawyd y newid mewn ymarfer gan glinigwyr a grwpiau menywod. Ysgrifennodd swyddogion at Brif Weithredwyr y byrddau iechyd ar ddechrau mis Medi i ofyn am adborth ynglŷn â sut roedd y newid mewn ymarfer wedi gweithio yn eu bwrdd iechyd. Mae pob un ohonynt wedi nodi canlyniadau gwell mewn nifer o feysydd gan gynnwys amseroedd aros byrrach, niferoedd uwch o erthyliadau'n digwydd ar gyfnod beichiogrwydd cynharach ac, yn arwyddocaol, adborth cadarnhaol iawn gan gleifion sy'n defnyddio'r model gofal hwn. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol hefyd o ran y gwell defnydd o adnoddau ac effeithiolrwydd cost.

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau'r ddogfen ymgynghori

C1.	<p>A ydych o'r farn bod y gymeradwyaeth dros dro wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau erthylu i fenywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn gan roi sylw penodol i ddiogelwch, hygyrchedd a chyfleustra gwasanaethau? Rhowch eich rhesymau.</p>
C2.	<p>A ydych o'r farn bod y mesur dros dro wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau erthylu i'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau? Gallai hyn gynnwys mwy o hyblygrwydd i'r gweithlu, effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir, gwerth am arian ac ati. Rhowch eich rhesymau.</p>

C3.	Pa risgiau ydych chi'n eu hystyried sy'n gysylltiedig â'r mesur dros dro? Os ydych o'r farn bod risgiau, a ellir lliniaru'r risgiau hyn?
C4.	Yn eich profiad chi, a yw'r gymeradwyaeth dros dro wedi effeithio ar wasanaethau eraill GIG Cymru? Os felly, pa wasanaethau?
C5.	Y tu allan i bandemig COVID-19, a ydych o'r farn bod manteision o ran diogelu a diogelwch menywod i'w gwneud yn ofynnol iddynt wneud o leiaf un ymweliad â gwasanaeth i gael eu hasesu gan glinigydd? Amlinellwch y manteision hynny.
C6.	I ba raddau ydych chi'n ystyried y gallai rhoi cymeradwyaeth barhaol i fenywod ddefnyddio'r ddwy bilsen gartref gael effaith wahaniaethol ar grwpiau o bobl neu gymunedau? Er enghraifft, beth yw'r effaith ar bobl ag anabledd neu ar bobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu grefyddol?

--	--

C7.	<p>I ba raddau ydych chi'n ystyried y gallai rhoi cymeradwyaeth barhaol i ddefnyddio'r ddwy bilsen gartref ar gyfer erthyliad meddygol cynnar gynyddu neu leihau'r gwahaniaeth o ran mynediad i erthyliad i bobl o ardaloedd mwy difreintiedig yn economaidd neu rhwng ardaloedd daearyddol sydd â gwahanol lefelau o anfantais?</p>
------------	--

C8.	<p>A ddylai'r mesur dros dro sy'n galluogi i fenywod ddefnyddio'r ddwy bilsen yn y cartref ar gyfer erthyliad meddygol cynnar:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Ddod yn fesur parhaol?2. Barhau heb ei effeithio (h.y. bod yn gyfyngedig o ran amser am ddwy flynedd a dod i ben ddwy flynedd ar ôl i Ddeddf Coronafeirws ddod i rym (25 Mawrth 2022), neu ddod i ben ar y diwrnod y daw darpariaeth dros dro Deddf Coronafeirws 2020 i ben, pa un bynnag sydd gynharaf).3. Arall [rhowch fanylion]?
------------	--

C9.	<p>Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai trefniadau Terfynu Beichiogrwydd yng Nghymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?</p>
------------	---

--	--

C10.	Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
-------------	--

C11.	Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:
-------------	---

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: